



Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CBAC, CCEA, City & Guilds, NCFE, OCR a Pearson

Hysbysiad i Ganolfannau

Athrawon sy'n rhannu deunydd asesu di-arholiad a gwaith ymgeiswyr

Mae rhannu deunydd asesu di-arholiad enghreifftiol at bwrpasau cyfeirio yn annog arfer addysgu da. Fodd bynnag, **rhaid** i athrawon gadw rheolaeth a goruchwyliaeth agos o gyhoeddi gwaith a gynhyrchwyd gan gyn-ymgeiswyr o flynyddoedd blaenorol, ac o ddeunydd asesuadau di-arholiad enghreifftiol sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn sicrhau nad yw ymgeiswyr yn defnyddio deunydd o'r fath ar gyfer eu gwaith eu hunain.

Rhaid i ganolfannau bob amser gadw deunydd asesu di-arholiad byw* a gwaith ymgeiswyr yn ddiogel ac yn gyfrinachol pan mae'r deunydd hwnnw yn eu meddiant. **Ni ddylai** staff addysgu rannu asesuadau di-arholiad byw ag ymgeiswyr na **rhannu na** 'phostio' gwaith ymgeiswyr **yn gyhoeddus**, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol. Rhaid i ganolfannau ac athrawon fod yn ymwybodol o'r rheoliadau sy'n ymwneud â defnyddio gwaith mewn rhai amgylchiadau, megis arddangosfeydd ac at ddibenion cyfweiliadau. Cyfeiriwch at adran 4.8 o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesuadau di-arholiad* – manylebau TAG a TGAU.

(*Mae deunydd asesu di-arholiad byw yn cael ei ddiffinio fel unrhyw waith ar destun a bennir gan naill ai gorff dyfarnu neu'r ganolfan ar gyfer cyfres arholiadau gyfredol neu yn y dyfodol, hyd yn oed os cwblhawyd y gwaith mewn blwyddyn flaenorol.)

Rhaid i athrawon hysbysu ymgeiswyr bod copïo unrhyw ddeunydd asesu di-arholiad er mwyn ei gyflwyno fel eu gwaith eu hunain yn achos o gamymddwyn. Ni ddylai ymgeiswyr gyflwyno gwaith nad yw wedi ei gynhyrchu ganddyn nhw eu hunain. Ceir rhagor o wybodaeth yn:

- **adran 5** o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesuadau di-arholiad* – Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol
- **adran 9** o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesuadau di-arholiad* – manylebau TAG a TGAU.

Ni ddylai athrawon annog ymgeiswyr i gynorthwyo ei gilydd wrth gynhyrchu gwaith.

Rhaid i athrawon atgoffa ymgeiswyr **na ddylent** rannu eu gwaith ag eraill trwy unrhyw gyfrwng: **ni ddylent**, er enghraifft, rannu eu gwaith ar gyfryngau cymdeithasol (<http://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents>).

Lle mae'r fanyleb yn caniatáu hynny, gellid gwneud rhai aseiniadau fel rhan o grŵp, dylid cyfeirio at:

- **adran 4.5** o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad – manylebau TAG a TGAU*
- **paragraff 9.1** o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad – Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol*
- manyleb y corff dyfarnu.

Rhaid defnyddio deunydd enghreifftiol a gynhyrchir gan gorff dyfarnu yn unol â chyfarwyddiadau'r corff dyfarnu. Os oes unrhyw amheuaeth gan athrawon, dylent gysylltu â'r corff dyfarnu am gyngor ac arweiniad penodol i bwnc.

Ni ddylai athrawon na chanolfannau ddefnyddio tasgau a dogfennau asesu di-arholiad at unrhyw bwrpas ar wahân i'w cyflwyno i'w hymgeiswyr. **Bydd unrhyw ymgais ar ddefnyddio deunyddiau asesu di-arholiad er mwyn elwa'n fasnachol, neu dorri cyfrinachedd y deunyddiau hynny, yn cael ei drin fel camymddwyn.**

Mae'r ddogfen hon hefyd yn berthnasol i unedau asesiad dan reolaeth TGAU CCEA a chydrrannau gwaith cwrs TAG UG ac U2 CCEA.